

27ain Adroddiad y Corff Adolygu Athrawon Ysgol Condemniad damniol o Lywodraeth San Steffan

Ar 10 Gorffennaf 2017, ar ôl wythnosau lawer o ohirio cyhoeddi 27ain Adroddiad y Corff Adolygu Athrawon Ysgol (Corff Adolygu) am gyflogau athrawon ar gyfer 2017/18, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yr adroddiad o'r diwedd, ynghyd â'i hymateb i'w argymhellion.

Mae'r Adroddiad yn gondemniad damniol o'r cap a roddwyd gan Lywodraeth San Steffan ar gyflogau gweithwyr sector cyhoeddus, sy'n gyfrifol am y dirywiad dramatig yng nghyflogau'r athrawon ac sydd, ochr yn ochr â'r llwyth gwaith sy'n ehangu, wedi arwain at yr argyfwng presennol oherwydd prinder athrawon.

Mae'r Corff Adolygu wedi anfon neges glir at Lywodraeth San Steffan bod yn rhaid codi'r cap ar gyflogau athrawon os ydynt eisiau ymdrin yn llwyddiannus â'r argyfwng oherwydd prinder athrawon ac oherwydd ysbryd isel yr athrawon. Yn fwy na hynny, mae'r Corff Adolygu wedi dweud yn glir bod yn rhaid i'r ysgolion, yn ystod Blwyddyn Ysgol 2017/18, ganolbwyntio eu cyllidebau ar wobrwyo athrawon, am fod hyn yn rhagofyniad ar gyfer cynnal safonau addysgol.

Argymhellion y Corff Adolygu

'Yn ein barn ni, mae'n rhaid ymdrin eleni gyda'r sefyllfa wael yma o ran recriwtio a chadw athrawon er mwyn dechrau gwneud cyflogau athrawon yn fwy cystadleuol. Y flaenoriaeth yw helpu i recriwtio a chadw athrawon ar gamau cynnar yn eu gyrfaedd

Erbyn mis Medi 2017, rydym yn argymhell:

- *codiad o 2% i isafswm ac uchafswm y brif ystod cyflog;*
- *codiad o 1% i isafsymiau ac uchafsymiau'r ystod cyflog uwch, yr ystod cyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso a'r ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol;*
- *codiad o 1% i isafsymiau ac uchafsymiau'r ystod cyflog ar gyfer y grŵp arweinyddiaeth a'r ystodau cyflog ar gyfer y grwpiau penaethiaid; a*
- *chodiad o 1% i isafsymiau ac uchafsymiau'r ystodau lwfans ar gyfer Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD) ac Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).'*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg wedi derbyn yr holl argymhellion.

Nid yw argymhellion y Corff Adolygu'n gofyn bod ysgolion yn parhau o fewn cap o 1% ar gyflogau wrth roi'r codiad cyflog ar gyfer 2017/18 i athrawon:

*'O dan y system gyflogau ac amodau gwaith bresennol, bydd y costau cyffredinol yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneir mewn ysgolion unigol a bydd angen eu gweithredu o fewn yr arian a fydd ar gael gan y Llywodraeth.'*¹

Mae'r Adroddiad yn tynnu'n helaeth ar dystiolaeth a gyflwynwyd mewn ysgrifen ac ar lafar gan NASUWT am natur gystadleuol cyflogau athrawon. Dyfynnodd y Corff Adolygu ddatganiad NASUWT bod system gyflogau wedi datblygu yn Lloegr sy'n 'effeithio'n ddifrifol ar ysbryd y gweithlu, nid yw'n codi safonau nac yn gwobrwyo athrawon, nac yn gweithio i recriwtio a chadw athrawon'.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru dystiolaeth i'r Corff Adolygu oedd yn datgan ei fod yn brysur anelu at ddatganoli cyflogau ac amodau gwaith athrawon o fis Medi 2018 ymlaen.

Parhad drosodd

Wrth gyflwyno tystiolaeth am y codiad cyflog ar gyfer 2017/18, nododd Llywodraeth Cymru y byddai ysgolion yn cael trafferth cynnig codiad cyflog o fwy na 1% oherwydd lefel y cyllid y byddent yn ei dderbyn.

Dyma oedd sylwadau'r Corff Adolygu am recriwtio a chadw athrawon:

- am y pumed flwyddyn yn olynol, roedd nifer y myfyrwyr a gychwynnodd Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) yn 2016/17 yn is na'r targed cyfan a osodwyd gan yr Adran Addysg (DfE), ac ni chyrraeddwyd y targedau ar gyfer y sector addysg uwchradd a mwyafrif y pynciau unigol;
- roedd cyfanswm y swyddi gwag a'r swyddi sydd wedi'u llenwi dros dro wedi codi'n sylweddol rhwng 2011 ac 2015, gan ddyblu yn ystod y cyfnod yma;
- cafodd cyfran sylweddol o'r oriau a addysgwyd mewn ysgolion uwchradd mewn sawl pwnc eu darparu gan athrawon sydd heb gymhwyster perthnasol ar safon uwch na Lefel A;
- parhaodd y duedd o gynnydd yn yr athrawon cymwysedig sy'n ymadael â'r proffesiwn;
- mae nifer yr athrawon sydd â rhwng dwy a phum mlynedd o brofiad addysgu sy'n aros yn y proffesiwn yn parhau i ostwng, ac mae cyfran yr athrawon sy'n aros yn y proffesiwn ar ôl tair blynedd a phum mlynedd yn gostwng.

Daeth y Corff Adolygu i'r casgliadau canlynol:

*'Yn ein 26ain adroddiad (Gorffennaf 2016) nodwyd, ar sail ein hasesiad o ystyriaethau penodi a chadw staff yn unig, bod achos o blaid cynnydd uwch na 1% yn y fframwaith cyflog cenedlaethol. Felly, aethom ati i gynghori'r Adran a phobl eraill y buom yn ymgynghori â nhw, y dylent helpu ysgolion i baratoi ar gyfer hynny. Mae ein dadansoddiad o'r dystiolaeth ar gyfer y cylch talu presennol yn dangos bod y tueddiadau o ran recriwtio a chadw athrawon oedd yn amlwg y llynedd wedi parhau – roedd y cyfraddau cadw athrawon yn parhau i ostwng, yn arbennig o blith y rheiny ar y camau cynnar yn eu gyrfaedd, ac mae'r targedau ar gyfer recriwtio myfyrwyr i HCA yn dal i fethu. Rydym yn pryderu'n fawr am effaith gronol y tueddiadau hyn ar argaeledd athrawon. Yn ein barn ni, mae hyn yn peri risg sylweddol i allu'r system addysg i weithio'n effeithiol.'*²

Unwaith eto, mae'r Adroddiad eleni'n cynnwys argymhelliad y Corff Adolygu bod angen codiad o fwy na 1% i ostwng y bwll cyflogau rhwng y proffesiwn addysgu a phroffesiynau graddedig eraill. Fodd bynnag, mae'r Corff Adolygu hefyd yn nodi'n glir na fyddent yn disgwyl i ysgolion ohirio gweithredu'r codiad hwn:

*'Rydym wedi ystyried dadleuon y ddwy ochr yn ofalus iawn. Yn gyffredinol, credwn fod y trafferthion mawr gyda recriwtio a chadw athrawon yn rhy arwyddocaol i ohirio gweithredu am flwyddyn arall.'*³

Mae'r Adroddiad yn nodi'n glir hefyd na all ysgolion fforddio peidio talu cyflogau priodol i athrawon os ydynt eisiau cynnal safonau:

'Mae cyflawniadau'r disgyblion yn dibynnu i raddau mawr ar allu'r ysgolion i gadw gweithlu cryf o athrawon. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i arweinwyr a chyrrff llywodraethu ysgolion wneud y defnydd gorau o'u pobl a rhoi'r flaenoriaeth angenrheidiol i gyflogau athrawon yng nghyllidebau eu hysgolion.'

Mae'r Adroddiad hefyd yn nodi y dylai ysgolion sicrhau bod eu system gyflogau'n gwobrwyo athrawon ar bob cam yn eu gyrfa, gan gynnwys yr athrawon sydd wedi cyrraedd yr ystod cyflog uwch. Fodd bynnag, mae'n canolbwyntio eleni ar godi cyflogau athrawon yn 2017/18 sy'n cael eu talu ar y brif ystod cyflog.

Mae'r Corff Adolygu, a NASUWT hefyd, yn disgwyl i ysgolion gymryd camau i ymdrin â'r argyfwng yn lefelau cyflogau'r athrawon yn ystod Blwyddyn Ysgol 2017/18. Bydd NASUWT yn cyhoeddi canllawiau pellach cyn hir ynglŷn â sut y dylid gweithredu hyn.

1 27ain Adroddiad y Corff Adolygu Athrawon Ysgol, 2017, paragraff 5.33

2 Paragraff 5.23 yn yr un adroddiad

3 Paragraff 5.28 yn yr un adroddiad

